



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

DATGANIAD I'R WASG

29 Mehefin 2017

O'r Drws i'r Ddesg: Helpu mwy o blant i gerdded neu feicio i'r ysgol

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi [canllaw gweledol](#) newydd hawdd i'w defnyddio er mwyn helpu sefydliadau i chwarae mwy o ran wrth annog plant i gerdded neu feicio i'r ysgol.

Gyda llai na hanner y plant yng Nghymru'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol gynradd, mae'r canllaw ['o'r drws i'r ddesg'](#) yn dangos sut y gallai datblygwyr tai, swyddogion trafnidiaeth, cynllunwyr, a hyd yn oed yr heddlu chwarae rhan hanfodol wrth wneud cerdded neu feicio i'r ysgol yn ddewis haws.

Mae'r canllaw wedi'i baratoi mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr o'r Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol Teithio Llesol i'r Ysgol - grŵp amlasiantaeth sy'n gweithio i sicrhau mai cerdded, defnyddio sgwter neu feicio yw'r dewis cyntaf pan fydd plant yng Nghymru yn teithio i'r ysgol.

Dywedodd Robert Sage, Prif Ymarferydd Hybu Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru:

"Rydym eisiau rhoi'r hyder i blant sicrhau mai cerdded a beicio yw eu dewis cyntaf ar gyfer mynd o le i le. Dyna pam rydym eisoes yn gweithio gydag ysgolion i hyrwyddo teithio llesol drwy ein cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru. Ond mae mwy y gallwn ni i gyd ei wneud.

"Mae llawer o ffactorau'n dylanwadu ar rieni a phlant pan maent yn penderfynu sut i gyrraedd yr ysgol, gan gynnwys sut mae'n teimlo i deithio drwy eu cymuned.

"Bydd y canllaw newydd hwn 'o'r drws i'r ddesg' yn helpu sefydliadau i weithio mewn modd cydgysylltiedig, ac ystyried eu cyfraniad at wneud cerdded, beicio neu ddefnyddio sgwter yn ddewis diogel, pleserus a phoblogaidd."

Dywedodd Steve Brooks, Cyfarwyddwr Cenedlaethol yn Sustrans Cymru:

"Rydym yn gweithio gydag ysgolion ledled Cymru i ddarparu gwybodaeth a helpu i ddatblygu'r sgiliau sy'n gwneud cerdded a beicio yn haws. Mae'n hanfodol bod sefydliadau a grwpiau cymunedol yn gweithio gyda'i gilydd nawr i helpu cenedlaethau iau ledled Cymru i feithrin ffyrdd mwy egniol ac iachach o fyw. Mae angen i feicio a cherdded fod yn opsiynau diogel, syml a deniadol er mwyn cyflawni hyn.

"Mae'r canllaw 'o'r drws i'r ddesg' yn amlygu sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i greu manau gwell, sy'n blaenoriaethu pobl ac yn sicrhau bod cerdded a beicio yn ffordd iach a diogel o fynd o le i le."

Gallai teithio llesol chwarae rhan bwysig wrth greu Cymru iachach, hapusach a thecach, yn ogystal â chyfrannu tuag at gymdeithas carbon is, a chymunedau mwy diogel, wedi'u cysylltu'n dda.

Ymunwch â'r sgwrs am yr hyn y gallwch ei wneud i helpu mwy o blant i gerdded neu feicio i'r ysgol ar Trydar #OrDrwsIrDdesg.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Amy Davies:
amy.davies8@wales.nhs.uk

DIWEDD

CYSWLLT: Ar gyfer ymholiadau'r wasg ffoniwch Daniel Owens yn nhîm Cyfathrebu Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 02920 348755 (24 awr)

[Nodiadau'r golygydd](#)

Grŵp Rhanddeiliad Cenedlaethol Teithio Llesol i'r Ysgol

Mae'r Grŵp Rhanddeiliad Cenedlaethol Teithio Llesol i'r Ysgol yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Sustrans, Living Streets, rhaglen Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus, Beicio Cymru, Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe, timau iechyd cyhoeddus lleol, a Rhwydwaith Cymru o gynlluniau Ysgolion Iach a Chynaliadwy.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Awdur: Daniel Owens / Amy Davies	Dyddiad: 08/06/2017
Rhif y fersiwn: V0b	Rhif y dudalen: 2

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sefydliad y GIG sy'n darparu cyngor a gwasanaethau iechyd y cyhoedd annibynnol i ddiogelu a gwella iechyd a lles poblogaeth Cymru.

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru bedair swyddogaeth statudol:

- Darparu a rheoli ystod o wasanaethau iechyd cyhoeddus, diogelu iechyd, gwella gofal iechyd, cynghori ar iechyd, amddiffyn plant a labordai microbiolegol a gwasanaethau'n ymwneud â gwylidwraeth, atal a rheoli clefydau trosglwyddadwy;
- Datblygu a chynnal trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth am faterion yn ymwneud â diogelu a gwella iechyd yng Nghymru ar gyfer y cyhoedd; cynnal a chomisiynu ymchwil i faterion o'r fath a chyfrannu at ddarparu a datblygu hyfforddiant mewn materion o'r fath;
- Casglu, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth yn systematig am iechyd pobl Cymru yn arbennig yn cynnwys achosion o ganser, cyfraddau marwolaeth a goroesi; ac amlygrwydd anomaleddau cynhenid; a
- Darparu, rheoli, monitro, gwerthuso a chynnal ymchwil i sgrinio cyflyrau iechyd a sgrinio materion yn ymwneud ag iechyd.

Ceir rhagor o wybodaeth am Iechyd Cyhoeddus Cymru yn www.iechydcyhoedduscymru.org